# EVANS, FREDERICK ('Ednyfed '; 1840 - 1897), gweinidog y Bedyddwyr

**Enw:** Frederick Evans
**Ffugenw:** Ednyfed
**Dyddiad geni:** 1840
**Dyddiad marw:** 1897
**Priod:** Frances Evans (née Williams)
**Rhiant:** Mary Evans
**Rhiant:** William Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog y Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** David Emrys Evans

Ganwyd yn Llandybie, 21 Ebrill 1840, mab hynaf William a Mary Evans, a brawd T. V. Evans. Dechreuodd bregethu yn 1856 gyda'r Methodistiaid Wesleaidd. Ymunodd â'r Bedyddwyr yn 1857. Ar ôl cyfnod yn academi Brynmawr, aeth i Goleg Pontyp l yn 1858. Ordeiniwyd ef yn Llangynidr, sir Frycheiniog, 1861, ac yno priodod Frances Williams. Mudodd i'r Unol Daleithiau yn 1866, ac aeth yn fugail ar yr eglwys Gymraeg yn Scranton, Pa. (1867-70). Yna troes i'r weinidogaeth Saesneg, a bu yn ei dro yn fugail ar eglwys Laight Street a'r Eglwys Ganol yn Forty-second Street, Efrog Newydd (1870-4), Eglwys Fedyddiedig Gyntaf Franklin, Pa. (1874-85), yr hen Ddegfed Eglwys, Philadelphia (1885-92), a'r Eglwys Fedyddiedig Gyntaf, Milwaukee (1892-7). Yn ystod ei fugeiliaeth yn Franklin treuliodd flwyddyn yng Nghymru yn weinidog Salem, Maesteg. Bu farw yn Llandybie, 21 Gorffennaf 1897. Yr oedd yn r amlwg ymysg Cymry 'r Unol Daleithiau fel pregethwr, darlithydd, beirniad, ac arweinydd eisteddfodol. Bu'n arweinydd hefyd yn yr eisteddfod genedlaethol ac eisteddfodau eraill yn ystod ei ymweliadau mynych â Chymru.

## Awdur

**Syr David Emrys Evans**, (1891 - 1966)

## Ffynonellau

*Frederick Evans, D.D. (Ednyfed) a memorial* (gol. B. D. Thomas) (Philadelphia, 1899)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733061

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu